



Coleg  
Gwent

ARLWY'R DDARPARIAETH DDYSGU

**CYMORTH DYSGU  
CYFFREDINOL AC  
YCHWANEGOL**

Diben y ddogfen hon yw rhannu'r ddarpariaeth ddysgu gyffredinol a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yng Ngholeg Gwent, i awdurdodau lleol, ysgolion a darpar ddysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mae'r term darpariaeth ddysgu gyffredinol yn cyfeirio at y cymorth sydd ar gael fel arfer i unrhyw ddysgwr a fydd yn cofrestru yng Ngholeg Gwent. Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn golygu cymorth sy'n ychwanegol at y cymorth a ddarperir yn gyffredinol i ddysgwyr o'r un oedran, a gall fod yn wahanol i'r cymorth cyffredinol.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ac addysg bellach hygyrch o fewn y gymuned a wasanaethir gan y coleg. Trwy gyfrwng ei ddarpariaeth ddysgu gyffredinol a'i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, nod y coleg yw sicrhau y bydd modd i'r holl ddysgwyr sydd wedi cofrestru gyda'r coleg wneud cynnydd rhagorol o fewn y cyrsiau a gynigir. Mae pob un o'n campysau'n cynnig cyrsiau sy'n anelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer astudiaeth bellach a/neu gyflogaeth. I gael manylion llawn am y rhaglenni a gynigir, edrychwch ar ein gwefan. (<https://www.coleggwent.ac.uk/cy>)

Mae ein dull addysgu a dysgu cynhwysol yn golygu y gallwn ddiwallu anghenion y mwyafrif o ddysgwyr, ac rydym yn cymryd camau rhesymol (gan roi sylw dyladwy i'r Ddeddf Cydraddoldeb) i sicrhau ein bod yn cynnig addysg o'r radd flaenaf a chymorth priodol, sy'n seiliedig ar asesiad o anghenion pob dysgwr - mae dysg, dyheadau a dymuniadau pobl ifanc wrth galon a chraidd eu siwrnai addysgol yng Ngholeg Gwent.

I nifer o'n dysgwyr, mae astudio cwrs mewn coleg yn cynnig cyfle pwysig iddynt gael addysg a hyfforddiant cyn mentro i'r byd gwaith a/neu i fyd oedolion. Credwn fod hyn yn hanfodol er mwyn annog pobl ifanc i fod mor annibynnol â phosibl, o ran eu dysg ac o ran eu sgiliau bywyd. Er bod ein dull yn gefnogol, nid ydym yn annog dysgwyr i fod yn ddibynnol ar eraill, ac rydym yn arfogi ein dysgwyr gyda sgiliau a strategaethau y gallant eu defnyddio yn y coleg ac mewn bywyd.

## Derbyniadau

Wrth ystyried ceisiadau gan bobl ifanc (16-25 oed) ag anghenion dysgu ychwanegol, defnyddir y meini prawf canlynol:

- A all y coleg ddarparu'r cwricwlwm, yr arbenigedd a'r amgylchedd a fydd yn galluogi'r person ifanc i gyrraedd ei botensial?
- A fydd cofrestru ar gwrs yn y coleg yn atal y person ifanc rhag cael gafael ar therapïau a gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer galluogi'r person ifanc i wneud cynnydd rhesymol tuag at ei nodau addysg a hyfforddiant?
- A all y coleg ddiwallu anghenion y person ifanc heb effeithio'n negyddol ar ei lesiant, neu ar lesiant dysgwyr eraill neu staff?

## Y ddarpariaeth ddysgu

**Darpariaeth ddysgu gyffredinol (ULP) - cymorth sydd ar gael fel arfer i bob dysgwr**

Mae'r coleg yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i bob dysgwr. Yn ôl pob tebyg, bydd y cymorth hwn yn diwallu anghenion y mwyafrif llethol o'n dysgwyr ac mae'n cynnwys y canlynol:

Gwasanaeth/cymorth	Yn debygol o ddiwallu anghenion y canlynol...	Sylwadau
Addysgu a dysgu gwahaniaethol	Pobl ifanc ag amrywiaeth o gyflyrau cyffredinol, penodol a/neu niwroamrywiol	Mae ein staff wedi cael hyfforddiant mewn ymarfer cynhwysol a gallant gael cyngor ac arweiniad ychwanegol gan ein tîm ADY.
Tiwtor personol - cyswllt dynodedig	Y mwyafrif o bobl ifanc	Bydd y dysgwyr yn cael tiwtor personol a fydd yn bwynt cyswllt dynodedig ar eu cyfer.
Tiwtorialau grŵp	Y mwyafrif o bobl ifanc	Mae ein sesiynau tiwtorial yn cynnwys amrywiaeth o bynciau er mwyn annog datblygiad personol a pharatoi'r dysgwyr ar gyfer byd oedolion.
Adolygiadau tiwtorial personol	Y mwyafrif o bobl ifanc, yn cynnwys rhai sydd angen y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth 'cyswllt' achlysurol</li> <li>• Cymorth i osod ac adolygu targedau personol</li> <li>• Cyfleoedd i drafod anawsterau'n ymwneud â'r cwrs neu anawsterau personol (dim cwnsela)</li> <li>• Cymorth bugeiliol ychwanegol o fath arall</li> </ul>	Caiff yr holl ddysgwyr gyfle i gael cyfweiliad tiwtorial personol gyda'u tiwtor personol.
Technoleg gynorthwyol	Pob person ifanc, yn cynnwys rhai â chyflyrau niwroamrywiol sydd angen cymorth gyda darllen, ysgrifennu a/neu gynllunio syniadau.	Mae holl gyfrifiaduron Coleg Gwent yn defnyddio'r feddalwedd ganlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Offer dysgu Microsoft (yn cynnwys darllenydd trochi)</li> <li>• Offer chwyddo sylfaenol</li> </ul> Mynediad at rai o'r adnoddau hyn o'r cartref.
Y tîm bugeiliol a llesiant, yn cynnwys Cymorth CG, cwmselwyr y coleg a hyfforddwyr personol	Pobl ifanc sy'n cael anawsterau personol gyda'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llesiant personol</li> <li>• Iechyd meddwl</li> <li>• Pryderon ariannol</li> </ul>	Bydd Hyfforddwyr Dysgu yn helpu'r dysgwyr i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi trefn ar bethau</li> <li>• Dal i fyny</li> <li>• Cwblhau aseiniadau</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryderon eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau neu asesiadau dan reolaeth</li> </ul>
Benthyg offer dros dro, megis gliniaduron ac ati	<p>Pobl ifanc nad oes ganddynt fynediad at gyfleusterau TG gartref neu bobl ifanc sydd angen offer ychwanegol i ddysgu ac a allai fod eu hangen oherwydd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflyrau niwroamrywiol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gwblhau aseiniadau</li> <li>• Llusgo ar ôl dysgwyr eraill gyda'u gwaith cwrs oherwydd problemau presenoldeb</li> <li>• Salwch dros dro</li> </ul>	Gall y dysgwyr wneud cais i fenthyg offer gan y staff, gan ddibynnu ar eu hargaeledd ac ar feini prawf penodol y coleg.
Mynediad at sesiynau llythrennedd a/neu rifedd	<p>Yr holl ddysgwyr, yn cynnwys rhai sydd wedi cael anawsterau yn y gorffennol gyda'r sgiliau hyn oherwydd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflyrau niwroamrywiol</li> <li>• Colli'r ysgol</li> <li>• Ymddieithrio</li> <li>• Anawsterau eraill</li> </ul>	Mae'r holl ddysgwyr amser llawn nad ydynt wedi llwyddo i gael gradd C (cyfwerth) neu uwch mewn Saesneg neu Fathemateg yn cael sesiynau llythrennedd a rhifedd amserlenedig fel rhan o'u rhaglen yn y coleg.
Mynediad at glybiau gwaith cartref, sesiynau dal i fyny a dosbarthiadau adolygu	Dysgwyr sydd ar ei hôl hi gyda'u gwaith neu sydd angen cymorth achlysurol gydag elfennau o'u gwaith cwrs. Gall hyn gynnwys pobl ifanc â chyflyrau niwroamrywiol yn ogystal â dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.	Gall y dysgwyr gymryd rhan mewn sesiynau dewisol dan arweiniad darlithwyr Saesneg a Mathemateg.
Man tawel y gellir ei ddefnyddio	Pobl ifanc â phroblemau gorsensitifrwydd, pobl ifanc sy'n dioddef o orbryder neu bobl ifanc sy'n teimlo'n anghyfforddus wrth ddefnyddio cantîn prysur.	Mae gan bob un o'n campysau fan tawel a all gynnig lle mwy cyfforddus i'r dysgwyr dreulio'u hamser rhydd.
Cymorth galw heibio ym mhob llyfrgell	Dysgwyr sydd ar ei hôl hi gyda'u gwaith neu sydd angen cymorth achlysurol gydag elfennau o'u gwaith cwrs. Gall hyn gynnwys pobl ifanc â	Gall Swyddogion Cymorth y Llyfrgell helpu gyda'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prawf-ddarllen</li> </ul>

	chyflyrau niwroamrywiol yn ogystal â dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau astudio</li> <li>• Cynlluniau gwaith</li> <li>• Ymchwilio</li> <li>• Rheoli amser</li> <li>• Sgiliau TG</li> </ul>
Cynnal asesiad ar gyfer trefniadau mynediad arholiadau, a darparu'r trefniadau hynny	Unrhyw ddysgwr â thystiolaeth sy'n dangos ei fod yn gymwys ar gyfer trefniadau arholiadau yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 o anabledd, ac yn unol â'r bwrdd arholi. Hefyd, efallai y bydd dysgwyr sy'n dioddef anfantais ddiweddar neu anfantais dros dro, er enghraifft yn sgil damwain neu gyflwr meddygol, yn gymwys i gael trefniadau mynediad arholiadau.	<p>Mae addasiadau rhesymol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amser ychwanegol</li> <li>• Darllenydd</li> <li>• Egwylion</li> <li>• Defnyddio cyfrifiadur i gwblhau arholiadau</li> <li>• Papurau mwy neu bapurau wedi'u haddasu</li> </ul>
Cymorth pontio	Pob dysgwr sy'n cael anhawster i symud i'r coleg, yn enwedig rhai â chyflyrau niwroamrywiol a/neu sy'n dioddef o orbryder.	Gellir trefnu ymweliadau yn ystod adegau tawel, ymweliadau ychwanegol, hyfforddiant ymgyfarwyddo, cyfweliadau â chymorth ac ati

Hefyd, mae modd i'r dysgwyr brynu eitemau fel troshaenau lliw, canllawiau darllen, teclynnau gafael mewn pennau ysgrifennu a phapur llinelllog lliw.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP) - prif ffrwd

Yn achos dysgwyr na ddiwellir eu hanghenion gan y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol (ULP) sydd ar gael fel arfer i bawb, mae'n bosibl y byddant angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Gall Coleg Gwent gynnig y cymorth canlynol ar bob un o'i gampysau.

Gwasanaeth/cymorth	Yn debygol o ddiwallu anghenion y canlynol...	Parth Dysgu Blaenau Gwent	Crosskeys	Casnewydd	Parth Dysgu Torfaen	Brynbuga
<p>Cymorth a rennir yn y dosbarth i ategu dysgu trwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Annog y dysgwyr i ddefnyddio strategaethau priodol, yn cynnwys technoleg gynorthwyol, i ddatblygu eu hannibyniaeth.</li> <li>➤ Cefnogi'r dysgwyr trwy gynnig cymorth yn ymwneud â geirfa'r pwnc a chysyniadau newydd, trwy ddatblygu strategaethau dysgu a thrwy oresgyn rhwystrau.</li> <li>➤ Rhoi sicrwydd er mwyn lleihau gorbryder, gan helpu'r dysgwyr i deimlo'n ddiogel yn eu hystafell ddosbarth/coleg.</li> </ul>	<p>Pobl ifanc ag anawsterau dysgu sy'n ei gwneud hi'n amhosibl iddynt wneud cynnydd rhesymol heb gymorth ychwanegol yn ystod y rhan fwyaf o'u hamser yn y dosbarth.</p> <p>Pobl ifanc sy'n teimlo'n bryderus iawn oherwydd anabledd/anhawster dysgu.</p> <p>Pobl ifanc na allant ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol yn y dosbarth heb rywfaint o gymorth.</p> <p>Pobl ifanc â chyflyrau corfforol a/neu feddygol sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd rhesymol yn y dosbarth.</p> <p>Dyrennir a chytunir ar y cymorth ar sail dull sy'n canolbwyntio ar unigolion.</p>	✓	✓	✓	✓	✓
<p>Cymorth agos gydag uchafswm o bedwar dysgwr, gyda chefnogaeth gweithiwr cymorth.</p>	<p>Pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol, y mae arnynt angen cymorth ar gyfer y rhan fwyaf o'u hamser yn y dosbarth er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd rhesymol.</p>	✓	✓	✓	✓	✓

	Dyrennir a chytunir ar y cymorth ar sail dull sy'n canolbwyntio ar unigolion.					
Goruchwyliaeth yn ystod amser cinio ac egwylion (yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn)	Dysgwyr sydd angen cymorth i reoli risgiau neu ddsygwyr na allant fynd i ardaloedd cyffredinol oherwydd gorbryder eithafol.	✓	✓	✓	✓	✓
Cymorth gyda gofal personol	Dysgwyr â chyflyrau corfforol neu feddygol ac sydd angen cymorth gyda gofal personol, cymorth symudedd, cymorth ar gyfer bwyta, gwisgo, mynd i'r tŷ bach a hylendid cyffredinol.	✓	✓	✓	✓	✓
Arwyddwr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (lefel 2 ac uwch)	Dysgwyr sydd wedi colli eu clyw, pan fo hynny'n effeithio ar eu dysg, yn cynnwys dysgwyr dwys-fyddar sy'n dibynnu ar BLS i gyfathrebu.	✓	✓	✓	✓	✓
Cymorth gyda Saesneg i fyfyrwyr b/Byddar	Dysgwyr b/Byddar y mae BSL yn iaith gyntaf iddynt ac na allant fynegi eu syniadau'n ysgrifenedig heb y cymorth ychwanegol hwn.	✓	✓	✓	✓	✓
Tywysydd	Dysgwyr ag amhariad ar y golwg ac sydd angen cymorth i symud o gwmpas y coleg.	✓	✓	✓	✓	✓
Cymorth yn ôl ac ymlaen o fannau cludiant	Dysgwyr sy'n gorfforol analluog i symud o'r manau cludiant i'r ystafell ddo-barth heb gymorth.	✓	✓	✓	✓	✓
Cymorth dysgu amserlenedig y tu allan i'r dosbarth yn ychwanegol at amserlen y cwrs	Dysgwyr sydd angen llawer mwy o gymorth nag a ddarperir gan y ddarpariaeth ddsygu	✓	✓	✓	✓	✓

	gyffredinol, pan fo cymorth yn y dosbarth yn anaddas.					
Sesiynau cymorth amserlenedig y tu allan i'r dosbarth a gyflwynir neu a gydgyssylltir gan Hyfforddwr Awtistiaeth	Dysgwyr niwroamrywiol sydd angen cymorth strategaeth ychwanegol, a allai gynnwys storïau cymdeithasol ac ati.	✓	✓	✓	✓	✓
Sesiynau cymorth amserlenedig y tu allan i'r dosbarth a gyflwynir neu a gydgyssylltir gan Hyfforddwr Technoleg Gynorthwyol	Dysgwyr sydd angen ymarfer dan oruchwyliaeth/cymorth ychwanegol i ddefnyddio offer neu feddalwedd arbenigol.	✓	✓	✓	✓	✓
Benthyg offer	Dysgwyr sydd angen offer arbenigol neu dechnoleg gynorthwyol er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd rhesymol ar eu cwrs. Pan fo'n rhesymol i'r coleg eu prynu, darperir offer ar sail dull sy'n canolbwyntio ar unigolion, ar y cyd â chyngor gan arbenigwyr allanol. Mae'r offer dan sylw yn cynnwys:  • Cymhorthion radio a brynir ar gyfer dysgwyr unigol, ar sail canllawiau tystiolaeth feddygol.	✓	✓	✓	✓	✓
Cymorth pontio uwch pwrpasol	Dysgwyr sydd angen rhaglen bontio bwrpasol a chynhwysfawr er mwyn eu galluogi i ymgysylltu â staff y coleg a'r amgylchedd cyn dechrau ar eu cwrs.	✓	✓	✓	✓	✓



## Darpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP) - ar wahân - sgiliau byw'n annibynnol (ILS)

Mae gennym amrywiaeth o raglenni ar wahân ar gyfer pobl ifanc na allant gael mynediad at raglenni prif ffrwd oherwydd eu hanawsterau dysgu a/neu eu hanawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Fel arfer, pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol (ôl-16 neu ôl-19) yw dysgwyr. Cynigir y rhaglenni ar wahanol lefelau ar bob campws, ac eithrio Brynbuga, a'r nod yw adeiladu ar gryfderau presennol y bobl ifanc. Seilir y cwricwlwm ar ddull cyflawni sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda thargedau unigol ac asesiadau RARPA (Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad).

Caiff y dysgu ei seilio ar bynciau craidd, sef cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol a phedwar piler: iechyd a llesiant, cynhwysiant cymunedol, cyflogadwyedd a byw'n annibynnol. Pan fo'n briodol, bydd y dysgwyr yn ymgymryd ag unedau achrededig.

Mae dosbarthiadau Sgiliau Byw'n Annibynnol yn llai o ran maint na chyrsgiau prif ffrwd a bydd cynorthwydd cymorth ychwanegol yn cynnig help llaw ynddynt.

Anelir y rhaglenni at y canlynol...	Cyrsgiau
Pobl ifanc sy'n gweithio tuag at fyw'n annibynnol neu'n lled-annibynnol ac sydd angen canolbwyntio ar sgiliau bywyd.	<b>Llwybrau 2 a 3</b> Caiff y cwrs hwn ei deilwra'n unigol i ddiwallu anghenion y dysgwyr a bydd yn deillio o asesiad sylfaenol a gynhelir cyn i'r cwrs ddechrau. Mae'n cynnwys pynciau fel: <ul style="list-style-type: none"><li>• Bwyta'n dda</li><li>• Cyllidebu</li><li>• Byw yn y gymuned</li><li>• Rheoli'r cartref</li><li>• Cynnal a chadw'r cartref</li><li>• Byw'n annibynnol</li><li>• Ymdopi â phroblemau</li></ul>
Pobl ifanc sy'n anelu at gael mynediad at gyrsgiau galwedigaethol prif ffrwd ond sydd angen cymorth ychwanegol i gyrraedd y nod hwnnw	<b>Llwybr 3 - Astudiaethau Galwedigaethol</b> - Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau sy'n ymwneud â phynciau fel: <ul style="list-style-type: none"><li>• Sgiliau byw'n annibynnol</li><li>• Gyrfaoedd</li><li>• Sgiliau galwedigaethol</li><li>• Llythrennedd a rhifedd yn y gwaith</li><li>• Cyflogadwyedd fel ysgrifennu CV a llenwi ffurflenni cais</li><li>• Rhywfaint o brofiad gwaith pan fo ar gael yng Ngholeg Gwent</li></ul>

<p>Pobl ifanc sy'n paratoi i ymgymryd ag interniaeth â chymorth, gan weithio tuag at ganfod gwaith rhan-amser neu amser llawn.</p>	<p><b>Llwybr 3 - Paratoi ar gyfer Interniaeth â Chymorth</b> - Bydd y dysgwyr yn ymgymryd â gweithgareddau damcaniaethol ac ymarferol er mwyn datblygu a gwella sgiliau cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd y cwrs yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer y byd gwaith.</p> <p>Y meysydd dan sylw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Meddwl yn feirniadol a datrys problemau</li> <li>• Gwaith tîm a chydweithio</li> <li>• Proffesiynoldeb ac etheg gweithio</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu, ar lafar ac yn ysgrifenedig</li> <li>• Sgiliau rhifedd</li> </ul>
<p>Pobl ifanc sy'n ymgymryd ag interniaeth â chymorth, gan weithio tuag at ganfod gwaith rhan-amser neu amser llawn.</p>	<p><b>Llwybr 4 - Interniaeth 'Engage to Change'</b></p> <p>Bydd y cymwysterau'n cael eu teilwra'n ôl anghenion yr holl interniaid a'u llwybrau cynnydd arfaethedig. Rhaid i'r dysgwyr fod yn 16-24 oed; rhaid iddynt allu teithio'n annibynnol, gwneud cynlluniau teithio neu fod yn barod i ddysgu sgiliau teithio'n annibynnol; a rhaid iddynt fod ag awtistiaeth, anhawster neu anabledd dysgu.</p> <p>Mae'r meysydd pwnc yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Meithrin cydberthnasau proffesiynol gyda chydweithwyr yn y gweithle</li> <li>• Ysgwyddo cyfrifoldeb dros hunanddatblygiad</li> <li>• Sut i ddod o hyd i'w ffordd yn y gweithle</li> <li>• Dysgu am reolau a rheoliadau'r gweithle (Etheg Gweithio)</li> <li>• Mynd i'r afael â gweithgareddau ar gyfer dewis swyddi</li> <li>• Cwblhau lleoliad gwaith estynedig oddi ar y campws</li> </ul>

I gael manylion llawn am y rhaglenni a'r campysau sy'n cynnig y cyrsiau, edrychwch ar ein gwefan. (<https://www.coleggwent.ac.uk/cy>)

## Darpariaeth ddysgu arbenigol - nid yw ar gael yng Ngholeg Gwent

Mae Coleg Gwent yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion o bob oedran. Mae gan y coleg amgylchedd agored ac mae'n debygol o weddu i anghenion pobl ifanc a all reoli eu hymddygiad a'u llesiant oddi mewn i'r math hwn o leoliad.

Ni all y coleg ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc sydd angen cyfleusterau hyfforddi, therapiwtig a dysgu arbenigol a dwys, lle darperir yr addysg a'r cymorth gan staff a hyfforddwyd yn arbennig. Ychwaith, ni all Coleg Gwent gynnig lle i berson ifanc os na allwn gadw'r person ifanc neu ei gyfoedion yn ddiogel.

Gwasanaeth/cymorth	Yn annhebygol o ddiwallu anghenion y canlynol...	Sylwadau
Staff cymorth ac addysgu a hyfforddwyd yn arbennig; offer arbenigol a/neu gymorth therapiwtig, fel yr argymhellwyd.	Dysgwyr ag anabledau neu anawsterau dysgu cymhleth, llai cyffredin, sydd angen llawer o gymorth ac addysg arbenigol yn ogystal ag ymyriadau therapiwtig rheolaidd ac athrawon cymorth (VI/HI). Yn y cwricwlwm o ddydd i ddydd.	Staff a fydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ddarparu'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymyriadau meddygol a therapiwtig arbenigol, pwrpasol, dwys</li> </ul> <b>Darpariaeth:</b>
Staff cymorth ac addysgu a hyfforddwyd yn arbennig; offer arbenigol a/neu gymorth therapiwtig, fel yr argymhellwyd.	Dysgwyr ag anghenion ymddygiadol cymhleth, llai cyffredin, sy'n arddangos ymddygiad a all beri pryder ac sy'n cyflwyno risg sylweddol iddynt hwy eu hunain ac i eraill, ac a all fod angen strategaethau atal corfforol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth breswyl</li> <li>• Cwricwlwm pwrpasol</li> </ul> <b>Amgylchedd ac adnoddau:</b>
Offer a/neu hyfforddiant arbenigol, pwrpasol, drud, fel yr argymhellwyd.	Dysgwyr sydd angen hyfforddiant neu addysg bellach er mwyn defnyddio technoleg gynorthwyol, offer neu gyfarpar arbenigol e.e. technoleg arsyllu llygaid ('eye gaze'), cymorth gyda Braille, pwll hydrotherapi.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amgylcheddau caeedig, dan glo</li> <li>• Ystafelloedd synhwyrdd ac ystafelloedd ymlacio</li> <li>• Pwll hydrotherapi</li> <li>• Ystafell ffisiotherapi</li> <li>• Ystafell therapi galwedigaethol</li> </ul> <b>Ymyriadau:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atal corfforol/triniaeth gadarnhaol/ 'Team Teach'</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth pwrpasol gyda’u hymddygiad</li> <li>• Cymorth a rheolaeth anadlu</li> <li>• Rheoli poen neu ystum y corff</li> <li>• Hyfforddiant ar gyfer teithio rhwng y cartref a’r coleg</li> </ul> <p><b>Therapiau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Therapi iaith a lleferydd</li> <li>• Therapi galwedigaethol</li> <li>• Ffisiotherapi</li> <li>• Cerddoriaeth, drama, celf, therapi adlamu ac ati</li> </ul>
--	--	--

Fodd bynnag, rydym yn fodlon gweithio gyda darparwyr eraill, fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, pan fo modd i hynny hybu llesiant a/neu gynnydd dysgwyr.

Dylai partneriaeth effeithiol rhwng yr awdurdod lleol a’r coleg arwain at brofiadau ôl-16 llwyddiannus i bobl ifanc.